

Effaith argyfwng Covid-19 ar y sector celfyddydau

Mehfin 2020

1. Cefndir

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ymchwilio i effaith argyfwng COVID-19 ar feysydd yn ei gylch gwaith, gan gynnwys y celfyddydau. Trafododd yr Aelodau dystiolaeth gan:

- [Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru;](#)
- [Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru;](#)
- [Liam Evans-Ford, Cyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd; a](#)
- [Cydffederasiwn GIG Cymru.](#)

2. Yr effaith ar unigolion sy'n gweithio yn y sector celfyddydau

1. Dywedodd Nick Capaldi wrth y Pwyllgor fod y mwyafrif sy'n gweithio yn y sector celfyddydau'n gweithio fel gweithwyr llawrydd ac roeddent wedi colli eu holl gomisiynau. Ni allant ddibynnu ar y rhwydi diogelwch sydd ar gael i weithwyr cyflogedig. Dywedodd nad oedd **Cynllun Cadw Swyddi** Llywodraeth y DU na'i **Chynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig** yn addas i lawer sy'n gweithio yn y celfyddydau. Nid oedd y cynllun cymorth incwm i'r hunangyflogedig, meddai, yn addas i'r diben yng nghyd-destun y sector gan nad oedd nifer o unigolion yn gallu



dangos cofnod o'u cyfrifon ariannol¹ ac nid oedd ganddynt werth tair blynedd o gyfrifon. Mae'n galw am i'r meini prawf cymhwyso fod yn fwy hyblyg oherwydd:

'These are the young talent that our future depends on, who are being hobbled at the first opportunity of getting a foot on the rung of the ladder. So, we're looking particularly carefully at these groups of people, who are going to slip through the net in what the UK Government's support schemes are able to offer.'²

2. Dywedodd Liam Evans-Ford wrth y Pwyllgor mai ychydig o artistiaid llawrydd oedd yn gallu manteisio ar y cynlluniau sydd ar gael.³

3. Esboniodd Nick Capaldi fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymateb i'r angen i roi cymorth ariannol drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru i lansio Cronfa Gwydnwch y Celfyddydau, gwerth £7.5 miliwn, sydd wedi'i rhannu'n dair:

Cronfa Ymateb Brys i Unigolion	£1 miliwn
Cronfa Ymsefydlogi i Unigolion	£1 miliwn
Cronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau	£5.5 miliwn

4. Cynlluniwyd y Gronfa Ymateb Brys i Unigolion er mwyn cynorthwyo artistiaid llawrydd ac ymarferwyr creadigol sy'n gweithio yn y sector dielw yng Nghymru ac, erbyn 19 Mai 2020, roedd 214 o ymgeiswyr wedi cael cynnig cyfanswm o £489,826 o'r Gronfa hon. Mae grantiau bach gwerth hyd at £2,500 ar gael ac nid oes isafswm wedi'i bennu. Mae ail rownd o grantiau yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.⁴

5. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod yr argyfwng presennol yn effeithio fwyaf ar gymunedau bregus. Dywedodd Nick Capaldi:

'we need also to recognise that public health crises aren't equal opportunities events: the poorest, most marginalised and disabled are generally the worst affected, while the wealthy, connected and healthy are usually better able to weather the storm.'⁵

6. Esboniodd sut roedd Cyngor y Celfyddydau wedi ymateb i hyn:

¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 81

² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 81

³ Tystiolaeth ysgrifenedig Theatr Clwyd

⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 77

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

'within our emergency response funds, we've identified those groups that are a particular priority for support, and what we're seeing, particularly at the individuals' level—we set up two rounds for individuals, partly because we felt that those with particular challenges would need longer to think about and to plan for the support that they've needed.'⁶

7. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod y sector celfyddydau'n fregus gan fod cynifer sy'n gweithio yn y sector yn weithwyr llawrydd a chanddynt ail swydd neu maent wedi'u sefydlu fel busnesau bach. Croesawodd y ffordd y mae Cyngor y Celfyddydau wedi cynnig cymorth ariannol ac wedi cydnabod 'cymaint o ofid ydy o wedi bod i gyngor y celfyddydau bod yna gynifer o'r unigolion yma sydd yn llawrydd neu'n gwmnïau bychain mewn perygl o fethu i ddatblygu eu celfyddyd yn briodol oherwydd yr argyfwng'.⁷

8. Mewn ymateb i'r dystiolaeth nad yw ymarferwyr yn gallu manteisio ar gymorth drwy gynlluniau Llywodraeth y DU, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

'Well, whenever we see anomalies, especially in the situation that you've described, in terms of company structure, the position of sole traders and the inability of people to pay themselves as directors of companies legally, in issues like this we have, obviously, taken them up directly with the UK Government. We haven't had as much response as we would have hoped.'⁸

9. Dywedodd Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru y byddai unrhyw wybodaeth am y bylchau a nodwyd yn y cymorth ariannol sydd ar gael yn cael ei hystyried yn y trafodaethau ynghylch y don nesaf o gyllid gwynwch a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar weithwyr llawrydd.⁹

Ein barn ni

Mae'r sector celfyddydau, fel y diwydiant lletygarwch, yn dibynnu ar gynulleidfaoedd sy'n ymgynnull i fwynhau'r un profiad. Mae'n debygol felly mai hon fydd un o'r sectorau olaf i ailagor yn llawn.

⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 17

⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 45

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 66

⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 68

Cymorth i ymarferwyr yn y sector celfyddydau

Mae mwyafrif y rhai sy'n gweithio yn y sector wedi cael sioc ariannol ddifrifol ac uniongyrchol. Disgrifir artistiaid fel y gweithwyr 'gig' eithaf. Gan eu bod yn gweithio ar gomisiwn, mae eu sefyllfa ariannol yn fregus.

Er bod ymyriadau Llywodraeth y DU, fel y cynllun cymorth incwm i'r hunangyflogedig i'w croesawu, ni all ymarferwyr yn y sector celfyddydau fanteisio arnynt bob amser, a hynny oherwydd natur eu gwaith.

Drwy roi cymorth i'r sector hwn, gellir diogelu bywoliaeth ymarferwyr yn y sector celfyddydau ar ôl i'r cyfyngiadau ddod i ben. Mae hyn yn hanfodol os ydym am osgoi colli'r gweithlu creadigol a pheryglu enw da rhyngwladol Cymru fel canolfan ragoriaeth ym myd y celfyddydau. Mae'r enw da byd-eang sydd gan sefydliadau fel Opera Cenedlaethol Cymru a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn denu ymwelwyr rhyngwladol sydd, yn eu tro, yn cynnal y sectorau lletygarwch a thwristiaeth sydd hefyd yn dioddef oherwydd effaith y cyfyngiadau symud.

Rydym yn llongyfarch Cyngor Celfyddydau Cymru ar ymateb mor gyflym a darparu cymorth ariannol i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol. Clywodd y Pwyllgor y bydd y pwysau ar y cyllid hwn yn parhau am 12 mis arall o leiaf. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth ym mis Rhagfyr yn dangos sut y dyrannwyd yr £1 miliwn yn y Gronfa Argyfwng i unigolion a'r Gronfa Ymsefydlogi i unigolion, sut y cafodd ei hyrwyddo a sut y mae'r gronfa wedi bodloni ei meini prawf ei hun o ran diogelu budd y cyhoedd a budd diwylliannol Cymru.

Clywsom fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi defnyddio cyfuniad o gyllid y Loteri Genedlaethol, grant gan Lywodraeth Cymru a'r grant cymorth presennol i gynnal y sector. Fodd bynnag, dim ond tan fis Medi y bydd hyn yn parhau ac mae'n ymddangos y bydd yr argyfwng yn parhau wedi hynny. Heb gyllid ychwanegol, mae perygl y bydd ymarferwyr yn gadael y sector. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y cyllid brys wedi bod yn ddiwerth. I bob pwrpas, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn rhedeg cynllun cadw swyddi ar gyfer y sector gan mai ychydig o ymarferwyr yn y sector celfyddydau sy'n gymwys i fanteisio ar gynllun Llywodraeth y DU, a hynny oherwydd natur eu gwaith. Mae'n amlwg nad yw hyn yn gynaliadwy ac, felly, mae angen diwygio cynllun Llywodraeth y DU.

Ni allwn fentro colli cenhedlaeth o artistiaid na allant wrthsefyll y storm ariannol bresennol. Er mwyn sicrhau y gall ein sector celfyddydau gadw'r dalent sydd ei hangen arno i godi ar ei draed eto, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru

yn ymyrryd i sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y diwydiant celfyddydau'n gymwys i gael y cymorth ariannol y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnis.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru lobio Llywodraeth y DU i roi pwysau arni i:

- Ymestyn y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig y tu hwnt i fis Mai 2020 ac ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020; ac
- Adolygu'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig i sicrhau nad oes unrhyw weithwyr llawrydd yn syrthio drwy'r rhwyd gan nad ydynt yn gymwys i fod yn rhan o'r cynllun.

3. Yr effaith uniongyrchol ar sefydliadau celfyddydol

10. Clywodd y Pwyllgor mai'r her fwyaf arwyddocaol i sefydliadau celfyddydol yw'r gostyngiad sydyn yn eu llif arian. Dywedodd Nick Capaldi wrth y Pwyllgor fod portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru yn colli tua £1.4 miliwn yr wythnos ac y gallai Canolfan Mileniwm Cymru golli hyd at £20 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

11. Eironi'r sefyllfa, meddai hefyd, yw mai'r sefydliadau hynny sy'n lleiaf ddibynnol ar arian cyhoeddus sy'n dioddef fwyaf¹⁰ ac:

'under normal circumstances... we were encouraging organisations to be less dependent on public subsidy, and a number of organisations have responded magnificently...'¹¹

12. Galwodd am i gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU barhau ar ôl mis Hydref 2020 oherwydd ni fydd y rhan fwyaf o'r sefydliadau y mae'r Cyngor Celfyddydau yn delio â nhw'n gallu gweithredu'n ôl yr arfer tan ar ôl Pasg 2021.¹² Rhybuddiodd fod traean o'r sefydliadau yn y portffolio yn ddibynnol iawn ar y cynllun hwn.¹³

¹⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 14

¹¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 39

¹² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 14

¹³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 44

13. Disgrifiodd Liam Evans-Ford effaith uniongyrchol y cyfyngiadau symud ar y diwydiant:

‘Whilst much of the industry has responded well in delivering online content and community support through its work, the pure facts are that this industry is based on bringing together large groups of people for collective social experience – something that stopped immediately and is unlikely to return anytime soon. Organisations are in real danger of collapse with some venues within the UK already going into administration.’¹⁴

14. Cyfeiriodd hefyd at faint y broblem:

‘The furlough scheme has helped in the short term and the Welsh Government and Arts Council emergency funding is welcomed – but for many organisations the amounts available aren’t enough to navigate the length of likely closure.’¹⁵

15. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi sefydlu Cronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau, gwerth £5.5 miliwn. Fel ar 19 Mai 2020, cafwyd geisiadau am gymorth ariannol, gwerth tua £3.5 miliwn.¹⁶

16. Mae Cydffederasiwn GIG Cymru hefyd wedi galw am i’r cymorth ariannol i’r celfyddydau barhau, gan ddweud po hiraf y bydd y cyfyngiadau’n parhau, y mwyaf y cymorth y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i sicrhau bod y gwasananaethau hanfodol hyn yn parhau.¹⁷

17. Dywedodd Jason Thomas wrth y Pwyllgor eu bod wedi gofyn i gynrychiolwyr o bob un o’r sectorau ym mhorthfolio’r Dirprwy Weinidog nodi’n ysgrifenedig sut y gallant lacio’r cyfyngiadau a pharhau i gadw at y saith prawf a bennwyd gan y Prif Weinidog. Mae swyddogion wrthi’n ystyried yr ymatebion¹⁸. Dywedodd ei fod yn hyderus y bydd y cyfyngiadau’n cael eu llacio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

18. Roedd yn cydnabod bod ansicrwydd mawr yn y sector celfyddydau¹⁹ a bod galw ar i Lywodraeth y DU ymestyn ei chynllun cadw swyddi am gyfnod

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Theatr Clwyd

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Theatr Clwyd

¹⁶ Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cydffederasiwn GIG Cymru

¹⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 16

¹⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 54

sylweddol. Aeth rhagddo i ganmol Cyngor y Celfyddydau am geisio dod o hyd i ffyrdd ymarferol o helpu pobl yn ystod yr argyfwng hwn a dywedodd fod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn bobl sy'n gallu gwrthsefyll anawsterau.²⁰

Ein barn ni

Clywodd y Pwyllgor mai eironi'r sefyllfa bresennol yw mai'r sefydliadau hynny sydd wedi llwyddo i leihau eu dibyniaeth ar arian cyhoeddus yw'r rhai sy'n dioddef y colledion ariannol mwyaf.

Cymorth i'r diwydiant

Clywodd y Pwyllgor fod gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddigon o arian i helpu'r sefydliadau tan fis Medi ond bod y 'sefyllfa o argyfwng'²¹ a ddechreuodd gyda'r cyfyngiadau, yn debygol o bara tan Pasg 2021 o leiaf. Mae'n amlwg y bydd angen i'r cymorth ariannol a gynlluniwyd fel ymyrraeth tymor byr barhau ymhell i'r flwyddyn nesaf os ydym am weld parhad ein sefydliadau diwylliannol, a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol.

Canllawiau ar ailagor

Gwyddom fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau i ailagor. Rydym yn galw arni i ddweud sut y mae'n bwriadu i leoliadau diwylliannol weithredu pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio. Dylai sgysiau am lacio'r cyfyngiadau gynnwys cynrychiolwyr o leoliadau o bob maint, genre a rhanbarth. Dylai'r sgysiau hefyd gynnwys arbenigwyr meddygol, undebau llafur a busnesau sy'n ddibynnol ar y celfyddydau byw. Mae angen trafod a chytuno ar ganllawiau ar gyfer ailddechrau perfformiadau cyn gynted â phosibl.

Mae Llywodraeth y DU wedi penodi Comisiynydd Adfer ac Adnewyddu Diwylliannol i arwain Tasglu Adnewyddu Diwylliannol. Crëwyd Gweithgor Adloniant a Digwyddiadau i ddatblygu cyngor ac arweiniad ar ailagor lleoliadau diwylliannol ledled y wlad, gan helpu i gael gweithwyr yn ôl i'r gwaith a chreu cyfleoedd i gynulleidfaedd fwynhau ein sector diwylliannol llewyrchus unwaith eto.²²

²⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 56

²¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 15

²² <https://www.gov.uk/government/news/new-culture-commissioner-named-and-taskforce-set-up-to-aid-sector-recovery-from-coronavirus>

Gan dybio nad yw'r Tasglu yn gwasanaethu Lloegr yn unig, rhaid i Gymru gael ei chynrychioli mewn unrhyw drafodaethau a gynhelir gan Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y modd y mae'n ymgysylltu â Thasglu Adnewyddu Diwylliannol Llywodraeth y DU.

Pan ddaw'r pandemig hwn i ben, rhaid gofalu nad ydym yn dlotach yn ddiwylliannol. Rhaid parhau i gynorthwyo'r sefydliadau hynny sy'n chwifio ein baner ddiwylliannol, ac sydd wedi ennill clod rhyngwladol, a hefyd ein sefydliadau celfyddydau rhanbarthol neu, fel arall, mae perygl gwirioneddol na fyddant yn gallu parhau i weithredu'r tu hwnt i'r 12 mis nesaf.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor digwyddiadau ac adloniant er mwyn:

- cydweithio â Thasglu Adnewyddu Diwylliannol Llywodraeth y DU;
- paratoi canllawiau ar ailagor lleoliadau a pherfformiadau byw a busnesau cysylltiedig i'w cyhoeddi erbyn 1 Awst 2020;
- cydnabod y posibilrwydd na fydd ein prif sefydliadau celfyddydol yn broffidiol eto am rai blynyddoedd a bod yn barod i ymestyn yr arian cyhoeddus angenrheidiol i sicrhau eu parhad.

4. Ailadeiladu ac adnewyddu

19. Gofynnodd yr aelodau i Gyngor y Celfyddydau esbonio sut y gellir adfer sector celfyddydau Cymru, a beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Galwodd Nick Capaldi ar i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU barhau i gefnogi'r sector.²³

20. Mewn ymateb i gwestiwn am ddyfodol y sector, dywedodd:

'I think it will probably be more closely and better engaged with its local communities. The cleverer and the more astute organisations have not just rushed to get content online ... they've thought very carefully about, 'Who is our community? Who is our audience? Who do we want to get close to?' ... organisations will recognise that, ultimately, their survival will depend on very high levels of support from their community, and that might be a local community geographically, it

²³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 202, paragraff 91

might be a community of interests... I think we will see a new era and a new spirit of collaboration.'²⁴

21. Tanlinellodd Cydffederasiwn GIG Cymru bwysigrwydd cydweithredu'n ehangach, gan ysgrifennu:

'The pandemic has also underlined the importance of partnership working across different sectors, such as arts and health and social care. COVID-19 has impacted all sectors of public life, and it is important therefore that Wales' adopts a cross-sector, joined up response.'²⁵

22. Rhybuddiodd Liam Evans-Ford na all y modelau ariannu presennol barhau tra bo'r mesurau i gadw pellter cymdeithasol ar waith. Galwodd ar i'r rhai sy'n rhedeg y lleoliadau a'r cwmnïau gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu'n awr - yn hytrach nag i gyrff annweithredol ymgymryd â'r gwaith.²⁶ Dadleuodd y gallai hyn arwain at fwy o gydweithredu'n gyffredinol:

'We, as a subsector of the creative industries do not have a strong enough voice, or are not recognised enough to be included within decision making meetings as others are (an example might be sports and the planning meetings they are offered compared to our sector).'²⁷

23. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod angen i'r sector celfyddydau fod yn fwy cynhwysol yn y dyfodol, a bod perygl i sefydliadau ddibynnu ar eu cynulleidfaoedd traddodiadol yn hytrach nag estyn allan at gynulleidfaoedd newydd. Dywedodd Nick Capaldi wrth y Pwyllgor fod yn rhaid i'r hyn sy'n ymddangos ar ôl y pandemig deimlo'n ffres a bod angen i'r sector ddangos ei fod wedi addasu. Dywedodd y gallai newid o'r fath ein helpu i fynd i'r afael â'r angen brys i ymdrin â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol o ran pwy sy'n gallu mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.²⁸

24. Wrth alw am fuddsoddiad ariannol parhaus i'r sector, gofynnodd Cyngor y Celfyddydau i Lywodraeth y DU ddefnyddio:

²⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 59

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cydffederasiwn GIG Cymru

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Theatr Clwyd

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Theatr Clwyd

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

'the UK Shared Prosperity Fund to deliver a recovery focused business finance scheme, designed to stimulate business development and innovation across the arts and creative industries.'²⁹

25. Wrth drafod ffyrdd o weithio yn y dyfodol, soniwyd am gynhyrchu cynnwys digidol. Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru fod y penderfyniad i symud gwasanaethau ar-lein wedi sicrhau bod y cysylltiad â phobl yn parhau a'u bod yn gallu mwynhau gweithgarwch creadigol o hyd. Galwodd ar i'r Cymry gefnogi a hybu ffyrdd arloesol o roi rhaglenni artistig a chreadigol ar waith ar hyd a lled Cymru, gan danlinellu bod hyn yn fater brys a phwysig:

'Studies have demonstrated the many physical and mental health benefits of participation in the arts, which is especially critical during times of social isolation'.³⁰

26. Dywedodd Nick Capaldi wrth y Pwyllgor fod Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn annog sefydliadau i ystyried y cyfleoedd hyn ac mae llawer wedi ymateb drwy gynhyrchu ffrydiau byw, cydweithredu'n ddigidol, a chreu darlleniadau ar-lein a phodlediadau.³¹ Rhybuddiodd hefyd mai'r agwedd fwyaf heriol yw dod o hyd i ffordd o wneud arian drwy ddefnyddio'r dulliau hyn. Yn y pen draw, meddai, nid oedd yn gwybod am yr un sefydliad neu artist na fyddai'n well ganddo fod o flaen cynulleidfa fyw yn hytrach nag eistedd yn eu hystafell wely yn cyfathrebu ar sgrin'.³²

27. Clywodd y Pwyllgor fod Cyngor y Celfyddydau³³ a Chyddfederasiwn GIG Cymru yn pryderu y gallai'r anghydraddoldeb presennol o ran mynediad at y celfyddydau waethygu wrth symud pethau ar-lein. Ysgrifennodd Cydffederasiwn GIG Cymru:

'there is the potential to increase the digital divide for those who do not have access to the required infrastructure, technology, or skills. This poses a more acute risk to those that are experiencing higher levels of isolation...'³⁴

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Cydffederasiwn GIG Cymru

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

³² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 49

³³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Mai 2020, paragraff 71

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Cydffederasiwn GIG Cymru

28. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn cydnabod ei bod yn bwysig buddsoddi mewn 'dulliau newydd o gyfathrebu a defnyddio llwyfannau newydd'.³⁵ Dywedodd:

bod yna bosibiliadau mawr ar gyfer y dyfodol i bobl fod yn cyfranogi mewn bob math o wahanol ffyrdd o ffurfiau celfyddyd sydd â'u sail yn y byd gweledol, clywedol yn y byd digidol. Dwi'n meddwl bod hwnna yn llwyfan newydd, ac yn sicr mi fydd Cymru Greadigol, pan fyddwn ni yn fwy gweithredol, buaswn i'n meddwl, yn gosod hynny fel un o'i blaenoriaethau.'³⁶

Ein barn ni

Yn ogystal ag effaith uniongyrchol y cyfyngiadau, mae cwestiynau am ddyfodol y sector wedi codi o'r argyfwng hwn.

Ariannu

Y tu hwnt i'r angen uniongyrchol i adennill y refeniw a gollwyd, mae'r sector yn debygol o ddibynnu ar arian cyhoeddus i adfer yn llwyr. Mae'r dystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn dangos na ellir aros tan ar ôl yr argyfwng i ymdrin â'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Rydym yn cytuno â Nick Capaldi fod angen i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r sector celfyddydau a pheidio â gwastraffu'r miliynau a fuddsoddwyd eisoes drwy beidio ag ymrwymo i roi cymorth hirdymor.

Cydraddoldeb

Clywodd y Pwyllgor hefyd fod cyfle i greu dyfodol mwy cynhwysol i'r sector celfyddydau. Mae'r seibiant hwn a orfodwyd arnom yn rhoi amser inni ystyried sut y gall amrywiaeth ehangach o bobl adrodd eu straeon.

Pan fydd y goleuadau theatr yn cael eu troi ymlaen eto, rhaid i'r rhai a gafodd eu hallgáu yn y gorffennol fod yn bresennol. Ni all yr ymdrechion a wneir i ailadeiladu cynulleidfaoedd beryglu'r cynnydd a wnaed o ran ceisio sicrhau bod gan bawb yr un cyfle i fwynhau rhagoriaeth.

Y duedd tuag at gynnwys digidol

³⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 59

³⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai 2020, paragraff 60

Mae grwpiau diwylliannol wedi bod yn ceisio addasu a chynhyrchwyd toreth o gynnwys digidol yn ystod y cyfyngiadau symud. Clywodd y Pwyllgor nad yr ateb yw i sefydliadau celfyddydol droi'n ddigidol gan y gallai hyn adlewyrchu'r problemau presennol o ran sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fwynhau'r celfyddydau. Mae perygl hefyd y bydd pobl yn dod i ddisgwyl i gynnwys creadigol fod ar gael bob amser, ac yn rhad ac am ddim. Byddai hefyd yn golygu colledion i fusnesau cysylltiedig, fel y sector lletygarwch, sy'n dibynnu ar leoliadau sy'n cynnig perfformiadau byw.

Arweinyddiaeth

Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad wrth bennu trywydd y sector celfyddydau yn y dyfodol. Dylai sgysiau am drywydd y celfyddydau yn y dyfodol gynnwys sefydliadau o bob genre a maint.

Credwn y gall Llywodraeth Cymru arwain y ffordd a phennu trywydd y sector celfyddydau sy'n gynhwysol a hygyrch ac a all ennyn diddordeb pawb.

Rydym yn galw ar i Lywodraeth Cymru bennu trywydd y polisi ar gyfer sector celfyddydau Cymru a chynllunio i'w adfer ar ôl y bygythiad mwyaf ers y rhyfel, gan sicrhau ei fod yn ffynnu, nid dim ond goroesi.

Argymhelliad 3: Er mwyn adnewyddu a chynnal y sector, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau sgwrsio â chynrychiolwyr o'r sector celfyddydau i bennu trywydd polisi hirdymor sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn hygyrch.